

UNED: Y FUWCH EIDION – IECHYD A LLES

CYFLWYNIAD

Mae gofalu am iechyd y fuches yn hanfodol er mwyn cadw'r buchod yn ffit, yn gynhyrchiol, ac yn ffrwythlon o fewn y fuches. Mae'n bwysig i'r hwsmon gael bioddiogelwch, system sy'n rhydd o straen, cynllunio da, cynllun iechyd effeithiol gyda'r milfeddyg ac arsylwi cyson i sicrhau buches iach.

Fel arfer, bydd clefydau'n rhannu'n ddau brif categori :

- Clefydau y gellir eu rheoli e.e. mastitis, cloffni
- Clefydau heintus e.e. Firws Ysgothi Firaol Gwartheg (BVD), TB, Rhinotracheitis Heintus y Gwartheg (*IBR*), leptospirosis a Chlefyd Johne

Rhaid archwilio'r buchod yn rheolaidd – o leiaf unwaith y dydd, ac, o bosib, yn amlach ar adegau pwysig, gyda llygad brofiadol os am atal neu reoli'r clefydau hyn.

CLEFYDAU Y GELLIR EU RHEOLI

CLOFFNI

Mae cloffni'n broblem fawr i iechyd a lles y fuwch- gall olygu cyflwr corfforol gwael, gall amharu ar gynnyrch llaeth, a ffrwythlondeb, a'r angen am gyfradd amnewid uwch yn y fuches. Achosir cloffni gan :

- Clefydau heintus e.e. dermatitis y bysedd neu droed glonc
- Niwed corfforol neu fecanyddol e.g. clefyd llinell wen neu laminitis trawmatig

Mae niwed corfforol yn digwydd pan fydd lloriau anwastad mewn adeiladau neu dir garw, yn enwedig wrth giatau ac ar draciau. Mae clefydau ar eu gwaethaf pan fydd gwartheg yn sefyllian am hir mewn slyri, gwely neu dir gwlyb.

Bydd cael person profiadol yn trin eu traed yn rheolaidd yn help i ddod o hyd i unrhyw broblem, yn gwella siâp y droed i atal mwy o niwed neu haint, ac yn cael gwared ag unrhyw fudreddi a allai achosi problemau.

Gall baddon traed gael gwared â heintiau lefel isel, ond mewn achosion difrifol neu rhai'n ailymddangos, efallai y bydd angen gwrthfotigau a chyingor milfeddyg.

Dylai anifeiliaid sydd ddim yn ymateb i'r driniaeth gael eu didoli - dylid cynnwys cloffni mewn unrhyw bolisi didoli manwl.

Cyflwr	Symptomau ac achosion	Triniaeth
--------	-----------------------	-----------

dermatitis y bysedd	Llid (bacteria) y croen o gwmpas y carn – dechrau yn yng nghefn y carn ac ymledu	Gwrthfotigau
Troed glonc	Llid (bacteria) rhwng yr ewinedd - arogl drwg wrth bwysu arno	Baddon traed (5% fformalin)
Laminitis	Llid y laminâu – o dan wal gorniog allanol y droed – wedi'i achosi gan niwed corfforol neu ddeiet dwysfwyd uchel	Rhoi dogn cywir a chyflwyno deiet egni uchel yn raddol

MASTITIS

Haint y gadair/pwrs ydi mastitis, a gall achosi gostyngiad yng nghynnyrch y llaeth yn un neu fwy o'r tethi, colli cyflwr corfforol difrifol, a hyd yn oed farwolaeth. Gall effeithio ar heffrod gwryf a buchod a heffrod cyflo neu'n llaetha. Mae'r symptomau'n cynnwys :

- Cadair/pwrs wedi chwyddo
- Ddim yn fodlon gadael i'r llo sugno
- Yn cyffio ac yn gloff yn y goes/coesau ôl

Achosir y broblem gan sawl math gwahanol o facteria sydd wedi eu codi drwy'r deth oherwydd amgylchedd afiach neu fudr, a gall mai pryfed sy'n lledu mastitis yr haf.

Gellir dilyn sawl mesur ataliol :

- Rheoli adeg diddyfnu – dipio'r deth a defnyddio gwrthfotig hirhoedlog 'buwch sych', defnyddio meddyginiaeth gwrth-bryfed, cyfyngu'r porthi neu ddefnyddio porthiant ansawdd isel e.e. gwellt
- Tagiau gwrth-bryfed neu feddyginiaeth yn ystod misoedd yr haf

PARASITIAID

Gall parasitiaid mewnol ac allanol achosi problemau.

Gall parasitiaid mewnol ('llyngyr' y coluddyn a llyngyr yr iau) fod yn broblem, yn enwedig mewn amgylcheddau dwys neu bori gwlyb, a bydd rhaid trin y buchod gydag anthelmintig effeithiol drwy'r geg, brechu neu ei arllwys o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylid trin stoc newydd ei brynu cyn gynted ag y dônt i'r fferm.

Bydd ecto-parasitiaid e.e. llau i'w cael fel arfer dim ond mewn adeiladau gaeaf, a dylid trin yr anifeiliaid yno ac/neu pan fydd y broblem yn codi.

ANHWYLDEBAU

Y 'Ddera' (*Hypomagneseemia*) – oherwydd diffyg magnesiwm yn llif gwaed y fuwch, a'r symptom cyntaf fel arfer ydi buwch marw. Buchod sy'n llaetha, neu fuchod newydd eu diddyfnu sydd mewn mwyaf o berygl, a bydd y broblem yn digwydd fel arfer :

- Wrth droi'r fuches i borfa doreithiog y gwanwyn
- Pan fydd buchod dan straen wrth eu symud neu ddiddyfnu
- Pan fydd y tymheredd yn gostwng neu mewn tywydd gwael

Fel arfer, ataliad ydi'r unig opsiwn, a dylid cynnig ychwanegion o fagnesiwm yn y gwanwyn a'r hydref. Dylid osgoi rhoi slyri a gwartaith potash i borfeydd yn y gwanwyn.

Clwy' Llaeth / Hypocalseemia – oherwydd gostyngiad yn lefel calsiwm y gwaed yn ystod, neu, yn fwy cyffredin, ar ôl lloia. Rhaid darganfod y broblem yn sydyn a rhoi brechiad calsiwm dan y croen.

CLEFYDAU HEINTUS

Yn ychwanegol at glefydau sy'n gallu bod yn gatastroffig – clefydau allai heintio ffermydd yn lleol, yn rhanbarthol neu ar draws y wlad e.e. Clwy' Traed a'r Genau, Tafod Glas, gallai clefydau heintus gynnwys :

- Tiwberciwlosis (TB) - yn dibynnu ar eu lleoliad, bydd buchesi'n cael eu profi bob blwyddyn/ bob dwy flynedd/ bob pedair blynedd
- Brwselosis
- Ysgothi Firaol Gwartheg (*BVD*)
- Rhinotracheitis Heintus y Gwartheg (*IBR*)
- Leptospirosis
- Clefyd Johne

Yn aml, mae'r symptomau'n amlwg, ond, mewn llawer achos, dim ond monitro gofalus o berfformiad y fuches fydd yn codi amheuan. Mae cadw cofnodion, arsylwi, a chydweithio'n agos gyda milfeddyg y fferm yn hanfodol er mwyn rhwystro a rheoli'r clefydau hyn. Mae bioddiogelwch yn allweddol, ac felly, dylid osgoi prynu stoc newydd, neu wneud hynny gyda tharddiadau gofalus a defnyddio cwarantîn. Dylid cael gwared ag unrhyw anifail wedi'i heintio neu gariwr, mor fuan â phosib.

CYNLLUN IECHYD BUCHES

Mae cynllun iechyd buches yn hanfodol i gadw'r problemau hyn dan reolaeth neu eu hatal.

Dylai cynllun gynnwys :

- ffrwythlondeb
- ansawdd llaeth a mastitis
- cloffni
- clefydau heintus a pharasitig
- maeth
- lloi a stoc ifanc

Dyma'r canllawiau allweddol :

- Mesurwch - dewch i wybod beth ydi'r llinell sylfaen, deall effaith iechyd ar berfformiad y stoc, a chadw cofnodion manwl er mwyn gallu meincnodi, a chanfod y problemau.
- Rheolwch - Deliwch â'r problemau iechyd sydd â'r mwyaf o frys mewn dull wedi'i chynllunio - blaenoriaethwch fesurau rheoli ar gyfer y problemau hyn, gan ddefnyddio'r dulliau rheoli mwyaf effeithiol.
- Monitrowch - fel yr aiff y flwyddyn yn ei blaen, gwiriwch effeithiolrwydd y cynllun, gan ddefnyddio cofnodion da; gwnewch asesiad o ba mor effeithiol oedd y mesurau a gwneud yn siŵr eich bod yn adolygu'r cynlluniau iechyd.

CASGLIAD

Awgrymiadau ar gyfer iechyd y fuches :

1. Peidiwch â phrynu clefydau - cadwch fuches hunangynhaliol neu prynwch heffrod amnewid o fagwraeth statws iechyd hysbys
2. Sicrhewch fod eich arferion rheoli a lletya yn gadarn
3. Monitrowch glefydau drwy gymryd samplau gwaed
4. Cydweithiwch gyda'r milfeddyg i greu cynllun iechyd effeithiol
5. Cofnodwch fanylion perfformiad ac iechyd y fuches, a didoli anifeiliaid heintus
6. Brechwch yn erbyn clefydau na ellir eu dileu
7. Deliwch â'r broblem yn syth

FFYNONELLAU GWYBODAETH

EBLEX (2005) Beef Action for Profit – 7 – Better Returns from Effective Herd Biosecurity

EBLEX (2006) Beef Action for Profit – 15 – Better Returns from Reducing Herd Lameness

EBLEX (2007) Beef Diseases Directory

EBLEX (2007) Farm Herd Health Planning

HCC (2007) Cynllunio Iechyd y Fuches – BVD

HCC (2007) Cynllunio Iechyd y Fuches – Leptospirosis

HCC (2007) Gwneud y Gorau o'ch Gwartheg Sugno

HCC (2009) Cynllunio Iechyd y Fuches - IBR

HCC (2010) Ffocws ar BVD a Chlefyd Johne